**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

Cofnodion y cyfarfod blynyddol gynhaliwyd yn Neuadd Garndolbenmaen ar y 9fed o Fai, 2024 am 7:00 yr hwyr.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Croesawu'r Cyhoedd | Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol. |
| 2. | Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd | Diolchodd y Clerc i John Jones am ei gefnogaeth a'i holl waith caled tra'n Gadeirydd.<br><br>Etholwyd Richard Williams yn Gadeirydd a Megan Lloyd Williams yn Is-gadeirydd.<br><br>Diolchodd John Jones i'r Clerc ac i bawb am eu cefnogaeth tra'n gadeirydd cyn croesawu Richard Williams i'r gadair.<br><br>Diolchodd Richard Williams i John Jones am ei waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. |
| 3. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Michael Jones (Garndolbenmaen), Huw Pritchard , Raymond Jones (Pentrefelin), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams (Golan), Jess Williams (Penmorfa)<br><br>Croesawyd Michael Jones yn ôl ar ôl cyfnod o salwch. |
| 4. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd), Gwilym Evans (Prenteg), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa), Clifford Williams (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin) |
| 5. | Ddim yn bresennol: | John Till (Golan), Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd) |
| 6. | Datgan cywirdeb cofnodion cyfarfod blynyddol 2023 | ** Ymunodd Jess Williams ar cyfarfod<br><br>Richard Parry yn cynnig eu bod yn gywir ac Jess Williams yn eilio |
| 7. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion | Dim |
| 8. | Adroddiad Blynyddol y Cyngor | ** Ymunodd Megan Lloyd Williams ar cyfarfod.<br><br>Cyflwynodd y Clerc adroddiad o waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Diolchwyd i'r Clerc am ei adroddiad manwl. Bydd yr adroddiad ar gael ar y wefan i'r cyhoedd. |

| | | |
|---|---|---|
| 9. | Unllais Cymru | Megan Lloyd Williams a Sarah Jones i barhau i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor yma. |
| 10. | Mabwysiadu Polisïau'r Cyngor | Cyflwynwyd y Rheolau Sefydlog newydd. Penderfynwyd eu mabwysiadu ynghyd ar Cod Ymddygiad, Cynllun Cyhoeddi, Rheoliadau Ariannol a'r Cynllun Iaith. |
| 11. | Aelodaeth Is-bwyllgorau | Penderfynwyd cadw'r aelodaeth is-bwyllgorau'r un peth. Mae'r manylion ar gael ar ein gwefan. |
| 12. | Llawr yn agored | Dim |